

Chwarae *dros* Gymru

Rhifyn 15

GWANWYN 2005



Egwyddorion ar gyfer Gweithwyr Chwarae

Dros flwyddyn yn ôl sicrhodd Chwarae Cymru gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu'r Tybiaethau Gwaith Chwarae a ysgrifennwyd tua degawd yn ôl. Mae'r Tybiaethau a Gwerthoedd yn ffurfio sylfaen ethegol ar gyfer hyfforddiant gwaith chwarae. Mae'r Grŵp Craffu a fu'n goruchwylio datblygiad y cynnig newydd yn fodlon bod eu gwaith wedi'i orffen a'i bod yn amser iddynt gael eu profi yn yr amgylchedd gwaith.

Mae'n dda gennym gyhoeddi y cytunwyd mewn cyfarfod rhwng y Grŵp Craffu a SkillsActive, y Cyngor Sgiliau Sector, i gyflwyno'r Egwyddorion Gwaith Chwarae ar gyfer eu cymeradwyo gan y Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith

Chwarae a Phwyllgor Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Chwarae. Os yw'r ddau gorff yn eu cymeradwyo, mae'n debygol y cânt eu hymgorffori mewn hyfforddiant Lefel 2, 3 a 4 ac yn ffurfio rhan o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer gwaith chwarae.

Yn gynnar yn y broses penderfynwyd gwahaniaethu rhwng y Tybiaethau a Gwerthoedd newydd a'r cynnig newydd drwy alw'r rhai newydd yn Egwyddorion Gwaith Chwarae. Cynlluniwyd y naill a'r llall i fod yn sail i ymarfer gwaith chwarae fel set o ethegau proffesiynol, ac fe'u defnyddir yn bennaf mewn hyfforddiant gwaith chwarae, ond byddant yn sail i unrhyw fath o strategaeth chwarae neu ddatblygiad chwarae. Fe'u cynlluniwyd i gael eu defnyddio gan bob gweithiwr achos, ym mha bynnag gyd-destun y maent yn gweithio.

Yng Ngham Terfynol yr ymgynghoriad, ar ôl dyfeisio geiriad sy'n adlewyrchu'r ymatebion i'r ddau gam cyntaf, teimlai'r Grŵp Craffu eu bod wedi bron gyflawni eu dyletswydd, ac yn hytrach na bod am gynnwys yr Egwyddorion yr oedd yr

ymgynghoriad terfynol yn gofyn cwestiynau megis:

- A yw hyn yn ffit i'r pwrpas?
- A ydym wedi gwneud cyfiawnder i waith chwarae?
- A yw hyn yn welliant ar y Tybiaethau a Gwerthoedd?

Daeth cam olaf yr ymgynghoriad i ben ar 23 Chwefror 2005. Gwahoddwyd yr holl weithwyr chwarae ym Mhrydain i ymateb, ac roedd mwyafrif yr ymatebion yn gadarnhaol. Ar ôl cyfarfod terfynol i werthuso'r ymatebion i'r cwestiynau hyn, lle cytunwyd gwneud rhai mân newidiadau i'r fersiwn terfynol, cyfarfu'r Grŵp gyda SkillsActive.

Bydd y Grŵp Craffu yn cadw'r Egwyddorion mewn ymddiriedaeth ar gyfer y proffesiwn gwaith chwarae am y dyfodol rhagweladwy, hyd nes y sefydlir corff ethegol a fyddai'n fwy addas ar gyfer eu gwarchod.

Os hoffech wybod mwy gweler www.chwaraecymru.org.uk. Mae'r egwyddorion Gwaith Chwarae i'w gweld ar dudalen 3.



GOLYGYDDOL

Cafodd thema'r erthygl olygyddol hon ei hysbrydoli gan sgysiau gyda darparwyr chwarae yng Nghymru, a ddywedodd wrthym fod rhai yn dewis peidio ymwneud gyda Chwarae Cymru oherwydd y cawn ein gweld fel bod yn "rhy flaengar" a "dim ond yn poeni am chwarae mynediad agored". Bu Barbara Howe, Cydlynnydd Rhianta Amlasiantaeth Torfaen, yn ein helpu i ysgrifennu'r darn hwn mewn ymateb:

Mae llawer o fythau a chwedlau hynafol hardd yng Nghymru a gaiff eu coleddu a'u meithrin fel hen gyfeillion ac aelodau'r teulu. Maent yn rhan o'n diwylliant a rhaid iddynt gael eu trosglwyddo drwy'r cenedlaethau nes bod amser yn anghofio amdano.

Ac er bod y mythau hyn yn gysurion, hoffem gael gwared ag un ohonynt. Cafodd y myth yma ei drosglwyddo am flynyddoedd lawer ac mae'n ymwneud â ni. Mewn gwirionedd, bu cymaint o sôn amdano fel bod hyd yn oed pobl sy'n gweithio'n agos gyda ni weithiau'n anghofio ac yn credu ei bod yn wir. A dyma'r myth ...

"Dim ond chwarae mynediad agored â staff a meysydd chwarae sydd o gonsyrn i Chwarae Cymru".

Ni fedrai dim fod ymhellach o'r gwirionedd, ond nid oes unrhyw stori yn codi heb reswm - pan achubwyd Chwarae Cymru rhag difodiad a'i ailgyfansoddi fel elusen genedlaethol ar ddiwedd y 1990au, nid oedd unrhyw gorff arall a fyddai'n neu a fedrai hyrwyddo darpariaeth chwarae mynediad agored neu feysydd chwarae antur. Roedd darpariaeth chwarae mynediad agored â staff wedi gostwng ac roedd angen dirfawr am gefnogaeth fel rhan o amrediad o wasanaethau. Gan ein bod yn bodoli i hyrwyddo a chefnogi pob math o ddarpariaeth chwarae ar ran plant a phobl ifanc, fe wnaethom gamu i'r bwll. Fodd bynnag, mae llawer o feysydd eraill lle, fel y sefydliad cenedlaethol dros chwarae plant, darparwn gyngor ac arweiniad ac er mai sefydliad bach gyda chyllideb fechan ydym, ceisiwn gael argraff eang. Dim ond un elfen yn yr amrediad enfawr o wasanaethau sydd ar gael o becyn cymorth cynhwysfawr Chwarae Cymru yw arbenigedd ar chwarae mynediad agored.

Bydd dyfodiad proffesiwn yn anochel yn achosi dadlau a thrafod ymysg asiantaethau ac unigolion sy'n datgan diddordeb yn y sector. Mae gwaith chwarae yn enghraifft glasurol o sector o'r fath, yn arbennig pan roddir ystyriaeth i natur hollgynhwysol y gwaith. Medrid dadlau y gwelwyd gwaith chwarae yn hanesyddol fel opsiwn cyflogaeth a ddewisid gan unigolion gydag ymrwymiadau eraill yn eu hatal rhag dilyn gyrfa "go iawn". Ond mae gwybodaeth a dealltwriaeth o chwarae plant a'r

sensitifwydd tuag at anghenion chwarae sy'n sylfaen i'r dynesiad gwaith chwarae yn unigryw, a medrir ei weithredu i bob amgylchedd lle mae plant a phobl ifanc yn bodoli oherwydd bod chwarae mor hanfodol i'w datblygiad ac yn gymaint rhan o'u bywydau. Mae Chwarae Cymru yn ymfodyn sicrhau fod dynesiad gwaith chwarae yn cael ei gynrychioli ar y lefel wleidyddol uchaf ac yn cymryd camau i hyrwyddo ymarfer da ledled y proffesiwn.

Buom yn ymwneud yn agos â gwaith Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac os ydych wedi darllen yr argymhellion, byddwch yn gweld ein bod yn ymroddedig i wella cyfleoedd chwarae ein plant a phobl ifanc lle bynnag y maent. Mae hyn yn golygu pob man: yn yr ysgol, mewn darpariaeth gofal plant, yn y maes chwarae neu barc lleol, ar y tir gwastraff tu ôl i'r Neuadd Bentref, yn y lonydd a'r strydoedd, ac i fyny yn y goedwig.

Fel tîm bychan, gwnawn hyn ar lefel strategol drwy gynnig cyngor ac arweiniad i weinidogion a gweision sifil o fewn y Cynulliad, drwy gefnogi datblygiadau chwarae a gwaith ar strategaethau chwarae gan awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, drwy weithio fel ymddiriedolwyr neu aelodau grwpiau llywio sefydliadau eraill yn ymwneud â phlant; drwy ymwneud â datblygu hyfforddiant ac addysg gwaith chwarae, a llawer mwy. Rydym hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad ymarferol i bobl yn gweithio yn y maes ar ffurf briffiau yn y cylchlythyr hwn ac ar ein gwefan, a threfnu digwyddiadau hyfforddiant, seminarau a chynadleddau ar draws amrediad darpariaeth ar gyfer chwarae plant.

Mae'n cyhoeddiad 'Yr Hawl Cyntaf' yn bennaf oll yn fframwaith asesu ansawdd ar gyfer gweithwyr chwarae - nid dim ond y rhai yn gweithio mewn darpariaeth mynediad agored, ond gweithwyr chwarae mewn unrhyw gyfeuster lle mae plant a phobl ifanc, ac fe'i cyhoeddwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gall unrhyw un sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc - rhieni, cynllunwyr meysydd chwarae, athrawon, cynllunwyr tref a phenseiri trefol, llyfrgellwyr teganau a gweithwyr ieuencid ymhlith eraill - ddefnyddio'r ymchwil a gwybodaeth sydd ynddo oherwydd mae 'Yr

Hawl Cyntaf' yn ymwneud â sut mae plant yn datblygu drwy chwarae a'r ffyrdd gorau i hwyluso ac optimeiddio'r datblygiad hwn.

Y label arall a roddwyd i ni weithiau yw ein bod yn "flaengar" (bydd pawb sy'n ein hystyried fel rhan o'r 'sefydliad' yn gweld awgrym o ironi yn hyn - gweithredwn fel adfocad dros blant a phobl ifanc a'u hanghenion chwarae, a gall rhai o'r materion a godwn fod yn anghyfarwydd neu'n heriol i rai oedolion. Mae'n bwysig ein bod yn nodi y caiff rhai o'r cynlluniau "newydd" "blaengar" a hyrwyddwn eu cymryd yn ganiataol fel rhan o fywyd bob dydd mewn llawer o wledydd eraill. Mewn gwirionedd mae gwybod nad ydym yn ein darparu yn ein gwlad ein hunain yn aml yn achos sioc a siom.

Mae ymchwil i ddatblygiad plant a manteision profiadau chwarae ansawdd uchel yn symud yn gyflym. Ar yr un pryd mae cyfleoedd plant a phobl ifanc i chwarae yn cael eu herydu'n gyflym. Nid yw bob amser yn rhwydd codi ein pennau o'n gofidiau a dyletswyddau beunyddiol ac edrych o ddifrif ar yr hyn sy'n digwydd i'n plant a'n pobl ifanc yng Nghymru - dyfodol gwerthfawr iawn Cymru - i gymryd anadl ddofn a dweud na all bethau barhau fel hyn, a bod yn rhaid i ni wneud rhywbeth amdano.

Yn Chwarae Cymru rydym yn wirioneddol falch fod tair cenedl arall y Deyrnas Gyfunol yn dechrau edrych tuag at Gymru i arwain y ffordd ar faterion plant a phobl ifanc. Mae'r rhai sy'n ei gweld fel estyniad o Loegr yn aml yn diystyru natur unigryw Cymru, ac mae'n dda hyrwyddo ein hunaniaeth wahanol a gwneud y newyddion. Hoffem weld ein hunain fel rhan o'r hanes hir Cymru o anghydfurfwyr a diwygwyr cymdeithasol dewr, a hoffem helpu pob darparydd chwarae yng Nghymru i gymryd rhan yn y stori.

Bu Barbara yn gweithio hyd yn ddiweddar fel Cydlynnydd Gwasanaethau Plant ym Mlaenau Gwent lle'r oedd yn gyfrifol am gydlynu Cychwyn Cadarn, y Bartneriaeth Datblygu Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant a'r Bartneriaeth Plant - cyn hynny bu'n Swyddog Datblygu Allan o'r Ysgol i Chwarae Teg.

Chwarae dros Gymru

Cyhoeddir gan Chwarae Cymru deirgwaith y flwyddyn. Dylid cyfeirio pob gohebiaeth ac ymholiadau at y Golygydd yn:

Chwarae Cymru, TyBaltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH
Ffôn: 029 2048 6050 Ffacs: 029 2048 9359 E-bost: mail@playwales.org.uk
 Rhif Elusen Gofrestredig 1068926

Nid barn Chwarae Cymru o reidrwydd yw'r fam a fynegir yn y cylchlythyr yma. Rydym yn cadw'r hawl i olygu nid cyhoeddi. Bydd Chwarae Cymru yn cynnwys mewnddodion a hysbysebion yn y cylchlythyr hwn (cysyllter â Kathy Muse yn y cyfeiriad uchod i gael prisiau) fodd bynnag, nid ydym yn ardystio unrhyw rai o'r cynnyrch neu'r digwyddiadau a hysbysebwr yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan Carrick Business Services Cyf. Ffôn: 029 2074 1150. E-bost: sales@carrickbusiness.co.uk Lluniau cartwn gan Les Evans.

CYNNWYS

• Golygyddol	T 2	• Canolfannau Plant Integredig	T 8-9
• Loteri Fawr – Cyfle Mawr i Chwarae	T 3	• Hyfforddiant Gwaith Chwarae yng Nghaerdydd	T 10
• Iaith a Chwarae Cymru	T 4	• Proffesiwn Gwaith Chwarae	T 10
• Chwarae yn Gymraeg	T 4	• Both Dysgu	T 11
• Chwarae, Risg a Damweiniau	T 5	• Digwyddiadau	T 12
• Rheoleiddio Safonau Gofal i rai dan 18	T 5	• Adolygiadau Llyfrau	T 12
• Chwarae ac Anfantais	T 6-7		

Loteri Fawr – Cyfle Mawr i Chwarae

Cyfarfu Swyddogion Datblygu Chwarae o'r sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus gyda Peter Bryant, Uwch Swyddog Polisi Cronfa'r Loteri Fawr cyn i'r ymgynghoriad ar y blaenoriaethau ar gyfer cyllid y dyfodol ddod i ben ym mis Mawrth. Esboniodd Peter rai o'r cynlluniau ar gyfer dosbarthu arian loteri yng Nghymru a siaradodd gyda swyddogion am y potensial i fabwysiadu chwarae plant fel thema gynhwysfawr.

Bydd faint o arian fydd gan y Loteri Fawr i'w dosbarthu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn dibynnu ar incwm y loteri ac ymrwymadau blaenorol - medrai fod rhwng £100m a £140m yng Nghymru. Os yw Llundain yn ennill y cais am y Gemau Olympaidd, gall effeithio ar hyn oherwydd er y bu ymrwymiad na chaiff cronfeydd eu dargyfeirio o ardaloedd eraill, mae incwm cyffredinol y Loteri yn debygol o ostwng os yw'r cyhoedd yn dewis chwarae gêm arall i gyllido'r cynnig.

Mae'n debygol y bydd rhwng tair a pum rhaglen yng Nghymru (yn ogystal â Mentro Allan a'r Gronfa Pobl Ifanc sydd eisoes wedi eu lansio). Caiff 60 neu 70 y cant o'r arian eu cyfeirio tuag at y sector gwirfoddol. Bydd mwy o bwyslais ar gynnwys y cyhoedd mewn ymgynghoriad ar yr hyn a welir fel bod yn bwysig a phenderfyniadau ar wneud grantiau.

Bydd y Gronfa yn edrych ar brosiectau cymorth grant sy'n ategu darpariaeth bresennol sy'n gynaliadwy yn y tymor hir. Byddant hefyd yn ffafrio ceisiadau sy'n ddatblygiadol, blaengar ac yn cymryd risg. Mae ceisiadau yn debygol o orfod dangos i sefydliadau sy'n cyd-weithio gydag eraill a all gynnal cyllid ar sail tymor hwy. Bydd ffocws ar feysydd o anfantais gymdeithasol ac ar hyrwyddo

cyfleoedd cyfartal, a bydd blaenoriaethau'r Gronfa yn ategu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae hyn yn golygu fod gan y Loteri Fawr ddiddordeb yn y Strategaeth Chwarae arfaethedig, a chawsant hefyd adroddiad ar yr ymgynghoriad ar y Gronfa Cyfleoedd Newydd o £200m "ar gyfer chwarae" yn 2002. Bydd llawer o ymatebion i'r Argymhellion Gweithredu Polisi Chwarae (Strategaeth Chwarae) wedi amlygu'r angen am fwy o arian i'w gwneud yn realaeth, felly gobeithir fod y sector chwarae yng Nghymru wedi ymateb i'r ymgynghoriad cyllido hwn gan awgrymu fod chwarae yn ateb llawer o flaenoriaethau'r Loteri Fawr.

Daeth ymgynghoriad y Loteri Fawr i ben ar 18 Mawrth. Drwy fis Ebrill byddir yn trafod gyda sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy eisoes. Yna eir â chanfyddiadau Cymru i fwrdd y Loteri Fawr yn Llundain. Mae'n debyg y bydd y rhaglen gyllido newydd yng Nghymru yn "rhywbeth syml" a chaiff ei gweithredu ddiwedd 2005.

Cronfa Pobl Ifanc

Ffrwd cyllid Loteri Fawr sy'n anelu i helpu pobl ifanc i fwynhau bywyd a chyflawni eu potensial, datblygu sgiliau a chyfrannu at eu cymuned. Mae £13m i'w ymrwymo rhwng 2005 a 2009, a bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar rai 10-19 oed.

Ffôn 0845 410 2030 neu gweler www.biglotteryfund.org.uk/programm es/ypfw

Egwyddorion Gwaith Chwarae

parhad o'r dudalen flaen ...

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu'r fframwaith proffesiynol ac ethegol ac ar gyfer chwarae, ac o'r herwydd rhaid eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Disgrifiant yr hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, a darparu'r persbectif gwaith chwarae ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Maent yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y caiff gallu datblygu cadarnhaol plant a phobl ifanc ei hybu os cânt fynediad i'r amrediad ehangaf o amgylcheddau a chyfleoedd chwarae.

1. Mae pob plentyn a pherson ifanc angen chwarae. Mae'r awydd i chwarae yn reddfol. Mae chwarae yn rheidrwydd biolegol a seicolegol, ac yn sylfaenol i ddatblygiad iach a lles unigolion a chymunedau.

2. Mae chwarae yn broses a gaiff ei dewis yn rhydd, ei chyfeirio'n bersonol a'i chymell yn gynhenid. Hynny yw, mae plant a phobl ifanc yn penderfynu a rheoli cynnwys a bwriad eu chwarae drwy ddilyn eu greddf, syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain am eu rhesymau eu hunain.

3. Prif ffocws a hanfod gwaith chwarae yw cefnogi a hwyluso'r broses chwarae a dylai hyn fod yn sail i ddatblygiad polisi chwarae, strategaeth, hyfforddiant ac addysg.

4. Ar gyfer gweithwyr chwarae, mae'r broses chwarae yn cael blaenoriaeth dros gymdeithasu a rhaid i weithwyr chwarae weithredu fel adfocaciaid dros chwarae wrth ymwneud ag agendâu oedolion.

5. Rôl gweithwyr chwarae yw cefnogi plant a phobl ifanc wrth greu gofod y medrant chwarae ynddo.

6. Rhaid i ymateb gweithwyr chwarae i chwarae plant a phobl ifanc fod yn seiliedig ar wybodaeth gadarn a chyfoes o'r broses chwarae ac ymarfer adfyfiriol.

7. Rhaid i weithwyr chwarae gydnabod eu heffaith eu hunain ar y gofod chwarae a hefyd effaith chwarae plant a phobl ifanc ar weithwyr chwarae.

8. Rhaid i weithwyr chwarae ddewis arddull ymyriad sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymestyn eu chwarae. Rhaid i bob ymyriad gan weithwyr chwarae gydbwysu risg gyda budd datblygiadol a llesiant plant.

Chwarae yn Gymraeg drwy'r Fenter Iaith



Mae plant yn bwysig tu hwnt yng nghyswllt yr iaith Gymraeg. Mae golwg ar yr ystadegau yn Rhondda Cynon Taf yn dangos pam - gall 13.5% o bobl Rhondda Cynon Taf siarad Cymraeg ond gall 30% o'r plant wneud hynny. Mae hyn oherwydd llwyddiant addysg cyfrwng-Cymraeg gyda Mudiad Ysgolion Meithrin ac ysgolion cynradd ac uwchradd dwyieithog yn arwain chwyldro ieithyddol. Mae ffigurau tebyg ledled Cymru. Mae tua 25 o Fentrau Iaith mewn gwahanol rannau o Gymru - pob un yn sefydliad ar wahân ond tebyg - a phob un ohonynt yn gweithio gyda phlant.

Mae gan Fenter Iaith Rhondda Cynon Taf ddeunaw o gyfleusterau chwarae-gofal ar ôl oriau ysgol dan enw Clwb Carco a phedwar cynllun chwarae gwyliau. Byddwch yn nodi nad ydym ni fel llawer o ddarparwyr yn cael unrhyw anhawster o gwbl wrth gyfuno dwy elfen chwarae a gofal. Mae rhannu'r gwasanaethau hyn mewn modd simplistig a dogmatig yn aml yn hunllef i Menter Iaith a llawer o ddarparwyr eraill. Nid yw mynediad

chwarae hollol agored fel arfer yn opsiwn pan fo plant yn gorfod teithio i ddarpariaeth ddwyieithog ganolog. Gall dewis chwarae plant a rhieni ddal i fod yn ganolog i'r ddarpariaeth.

Cafodd yr holl gynlluniau eu sefydlu gyda grantiau OSCI ac yna'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ac rydym wrth ein bodd i fod wedi cadw bron y cyfan o'n gwasanaethau. Mae dau glwb ar ôl ysgol a dau gynllun gwyliau wedi cau am resymau ariannol mewn cyfnod deuddeg mlynedd o weithrediad ond mae'r holl wasanaethau dan fygythiad parhaol oherwydd diffyg cyllid i gefnogi a gweinyddu'r clybiau i'r safonau cynyddol uchel sydd eu hangen. Eto ystyrir mai dogma a gwleidyddiaeth yw'r bygythiadau mwyaf i'n gwasanaethau - cawsom anhawster mawr cael cefnogaeth gan Cymorth er enghraifft.

Gadewch i ni offen ar nodyn cadarnhaol. Mae gennym ddeunaw o glybiau ar ôl ysgol a phedwar cynllun chwarae gwyliau ar agor ar hyn o bryd. Rydym yn

un o'r darparwyr chwarae mwyaf yn Rhondda Cynon Taf. Cyflogwn 40-50 o bobl y dydd gan ddarparu gwasanaethau i dros ddau gant a hanner o blant bob dydd. Mae miloedd o rieni yn dibynnu ar ein gwasanaethau. Mae'r plant yn chwarae yn Gymraeg, darparwn gyflogaeth i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ac mae llawer o gyfleoedd i wirfoddoli. Hyfforddwn gannoedd o bobl a chyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol ac addysg miloedd o blant drwy ein gwasanaethau chwarae-gofal. Rydym yn falch iawn o'n cyfraniad.

Steffan Webb
Prif Swyddog Gweithredol
Menter Iaith Rhondda Cynon Taf
Cysyllter â Steffan ar 01685 877187

Rheoli Safonau Gofal i'r Rhai dan 8

Mae Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi cynlluniau i ddiwygio rheoleiddiad gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, gyda phrofiadau beunyddiol defnyddwyr gwasanaeth yn awr yn dod yn ffocws allweddol i waith yr Arolygiaeth.

Cafodd Jackie Evans, Cyfarwydd Strategol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ar gyfer Plant dan 8, ei gwahodd gan Chwarae Cymru i esbonio sut y bydd y newid yn effeithio ar y proffesiwn gwaith chwarae yng Nghymru, a gofynnwyd iddi a fydd yn helpu i ostwng baich arolygu ar ddarparwyr.

"Mae'n ymddangos fod llawer o ddarparwyr yn teimlo fod darpariaeth chwarae ansawdd uchel yn cael ei beryglu gan ddiwylliant rheoleiddio sy'n golygu fod anghenion plant yn cael eu diystyru, tra bod materion megis glanweithdra a threfnusrwydd yn cael blaenoriaeth," meddai Jackie Evans.

"Mae hyn mewn gwirionedd ymhell iawn o fod yn wir, a bwriadwn wneud yn siŵr ein bod yn cael y neges drosodd.

"Mae'r Arolygiaeth eisoes mewn trafodaethau gyda nifer fawr o fudd-ddeiliaid plant dan wyth yn cynnwys Chwarae Cymru. Drwy siarad gyda

darparwyr, rhieni a gofalwyr ac, wrth gwrs, y plant eu hunain, medrwn sicrhau y caiff ein dynesiad newydd ei oleuo gan amrediad eang o farn cyn i ni weithredu'r diwygiadau newydd mewn gwirionedd", meddai Mrs Evans.

Bu Swyddogion Datblygu Chwarae Cymru ac Arolygwyr ASGC mewn cyfres o dair sesiwn hyfforddi rhanbarthol yn ddiweddar oedd yn anelu i gryfhau'r berthynas rhwng y ddau sefydliad, cynyddu gwybodaeth arolygwyr o chwarae a gwaith chwarae tra hefyd yn cael gwared â'r lluo o fythau ynghylch arolygu.

"Er bod yr Arolygiaeth yn disgwyl canfod safonau gofal, diogelu a diogelwch neilltuol pan fyddant yn cynnal arolygiadau, yn sicr nid ydym eisieu gweld darpariaeth chwarae yn dod yn ddiffilas a hesb," meddai Mrs Evans.

Elfennau allweddol dynesiad newydd yr Arolygiaeth fydd:

- Sicrhau bod arolygiad yn seiliedig ar reoliadau gwarchod plant a gofal dydd 2002 tra'n rhoi ystyriaeth i'r isafswm safonau cenedlaethol;
- Sicrhau bod profiadau plant a'u rhieni/gofalwyr yn rhan hollbwysig o'r

broses arolygu;

- Sicrhau y caiff dwysedd yr arolygu ei gyfateb gydag anghenion y gwasanaeth - dynesiad targedig yn canolbwyntio ar y meysydd lle mae mwyaf o angen rheoleiddiad;
- Arolwg newydd symlach gyda ffocws ar reoleiddiad a fydd yn cynnwys elfen sylweddol o hunanasesu, gan ddodi llai o bwysau ar y darparwyr a chaniatáu arolygwyr i dreulio mwy o amser gyda'r plant a rhieni/gofalwyr;
- Mwy o bwyslais ar arolygiadau dirybudd.

Croesawodd Marianne Mannello, Swyddog Datblygu Chwarae Cymru, y cyfle i drafod y diwygiadau:

"Byddwn yn parhau i fonitro profiad darparwyr ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Arolygiaeth. Ein nod ar y cyd yw cefnogi dynesiad cyson a chyfeillgar i chwarae - sy'n newydd dda i ddarparwyr chwarae ac yn newyddion gwell byth i'r plant. Rydym eisieu gweld plant a phobl ifanc yn cael amser gwych mewn gosodiadau diogel ond eto greadigol ac mae'r Arolygiaeth yn ein cefnogi'n llwyr yn hynny."

Chwarae, Risg a Damweiniau

Mae cyfleoedd chwarae plant a phobl ifanc yn cael eu herydu gan ein diwylliant cynyddol gyfreithgar. Mae darparwyr meysydd chwarae yn wynebu biliau yswiriant enfawr a all weithiau olygu cau darpariaeth, neu o leiaf symud offer a fedrai fod yn safle damwain. Dywedir fod rhai ysgolion yn cymryd camau llym i ostwng unrhyw weithgaredd chwarae a fedrai fod â risg. Ar yr un pryd, ymddengys nad oes llestair ar arferion hysbysebu'r cwmnïau cyfraith 'dim ennill, dim ffi' ac eraill sy'n annog aelodau'r cyhoedd i hawlio am ddamweiniau. Yn y pen draw, er y gall rhai teuluoedd fod ar eu hennill yn ariannol, bydd mwyafrif ein plant ar eu colled.

Dangosodd ymchwiliad ar y diwylliant iawndal ar raglen The Blame Game ar BBC Cymru y gwir broblem o hawliadau twyllodrus am anafiadau meysydd chwarae a phrifyrdd i gynghorau lleol. Yn ôl y rhaglen, mae'r cynghorau yn ymaelodi â chronfa ddata twyll traws-ffin a fydd yn eu helpu i ddynodi hawliwyr amheus. Ond p'un a yw achos yn un ffals neu fod cyfiawnhad drosto, gall hawliad £2,000 am anaf gostio cymaint â £20,000 i gyngor mewn ffioedd a chostau. O gofio fod cronfeydd yn gyfyngedig, mae hyn yn anochel yn arwain at i reolwyr meysydd chwarae a chyrrff llywodraethu ysgol benderfynu mai pwyll piau hi.

Rhan sylweddol o'r broblem yw parodrwydd yswirwyr i setlo tu allan i'r llys, yn hytrach na herio hawliadau. Fodd bynnag clywsom fod un awdurdod lleol yng Nghymru yn dechrau cymryd safiad yn erbyn hawliadau meysydd chwarae, a byddai gennym ddiddordeb clywed gan unrhyw un sy'n gwybod am enghreifftiau lle medrai hyn fod yn digwydd.

Mae Chwarae Cymru wrthi'n weithgar yn ceisio gwella'r sefyllfa. Fel y gwyddoch efallai, rydym yn darparu cyrsiau arolygu meysydd chwarae a gwasanaeth ymgynghori ar ddyluniad ac arolygu meysydd chwarae, ac mae gennym aelod o staff sy'n dyst arbenigol mewn achosion anaf meysydd chwarae. Ar lefel fwy strategol, rydym yn cymryd rhan mewn cynllun gan y Swyddfa Gartref i fynd i'r afael ac effaith cyfreitha blinderus ar waith y sector gwirfoddol, yn cynnwys darparwyr chwarae plant.

Mewn cyfweiliad diweddar yn The Observer, dywedodd Tony Blair iddo gael ei ddychryn pan ddywedodd pobl oedd yn cadw meithrinfa wrtho eu bod yn poeni am adael i'r plant redeg i'r maes chwarae pan oedd yn wlyb rhag ofn fod un ohonynt yn llithro a bod achos cyfreithiol yn eu herbyn. Dywedodd fod yn rhaid edrych am ddiogelu pobl rhag hynny.

Mae eraill yn hybu dynesiad mwy synhwyrol a symlach at chwarae plant a damweiniau. Mewn datganiad i'r wasg diweddar ar byllau padlo, dywedodd Dirprwy Gyfarwyddyd Cyffredinol y Gweithgor Iechyd a Diogelwch fod iechyd a diogelwch synhwyrol yn ymwneud â rheoli risg, ac nid eu dileu i gyd. Dywedodd nad oedd y Gweithgor Iechyd a Diogelwch yn

y busnes o gael gwared â phleserau syml lle bynnag y maent yn ymddangos ac ar ba bynnag gost, a'u bod yn cydnabod manteision chwarae i ddatblygiad plant. Dywedodd fod chwarae o reidrwydd yn cynnwys peth risg, ac na ddylid aberthu hynny i geisio nod amhosibl ddiogelwch llwyr.

Dyma'r diwethaf mewn nifer o negeseuon gan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch sy'n hyrwyddo'r farn hon ac mae'n glir nad oes ganddynt fawr o amynedd ar gyfer y mesurau gwahardd concers y sonnir amdanynt yn aml yn y cyfryngau.

Yn ei ddeunydd hysbysebu ar gyfer cynhadledd arfaethedig, dywedodd y Gymdeithas Brenhinol er Atal Damweiniau y bu tueddiad yn ystod yr ychydig flynyddoedd diweddar i 'santieiddio' ardaloedd lle mae plant yn chwarae ac wrth geisio atal cyfreitha, yn dileu pob risg i bwynt lle mae plant yn eu cael yn ddfilas ac felly'n chwarae mewn mannau eraill mwy peryglus.

Mor bell yn ôl â 2002, cyhoeddodd y Gweithgor Iechyd a Diogelwch ymchwil gan yr Athro David Ball o Ganolfan Dadansoddiad Penderfyniadau a Rheolaeth Risg Prifysgol Middlesex oedd yn ystyried effeithlonrwydd y gwahanol gamau a gymerwyd i wella diogelwch meysydd chwarae mewn blynyddoedd diweddar. Ychydig o dystiolaeth a ganfu fod wynebau amsugno trawiad yn gwneud fawr o wahaniaeth i'r nifer o anafiadau y mae plant yn eu dioddef. Ar yr un pryd, mae meysydd chwarae yn cael eu cau oherwydd diffyg arian i ddarparu'r wyneb arbenigol hwn, a bod ysgolion sy'n gwella eu darpariaeth chwarae ar gyfer plant yn gwario arian prin ar y math hwn o wyneb yn y camsyniad y bydd yn atal anafiadau.

Er na fyddai neb ohonom yn hyrwyddo rheolaeth meysydd chwarae mewn modd peryglus, rydym hefyd yn cydnabod fod damweiniau wrth chwarae yn rhan naturiol o dyfu fyny, a'i bod yn reddfol i blant a phobl ifanc brofi eu hunain yn erbyn eu hamgylchedd. Byddem yn ddiolchgar pe cysylltech â ni os oes gennych chi brofiad o orfod cydbwysio materion iechyd a diogelwch ac yswiriant gydag anghenion chwarae plant a phobl ifanc o fewn darpariaeth chwarae.

Mae'r Athro Ball yn siarad yn ein cynhadledd Ysbryd Chwarae Antur ym mis Mai. Mae adroddiad o'i ganfyddiadau ar gael yn www.hse.gov.uk/press/2002/e02079.htm ac ymchwil bellach yn www.mdx.ac.uk/risk/research/projects.

I gael manylion pellach am gynhadledd ryngwladol RoSPA (y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau) "Protection v Risk Experience" a gynhelir yn Stratford-upon-Avon ar 6 Mehefin 2005, ffoner 0870 777 2120 neu e-bost events@rospa.com.

I lawrlwytho "Masnaging Risk in Play Provision", datganiad gan y Fforwm Diogelwch Chwarae, gweler www.ncb.org.uk/cpc/psf.asp

**Helpwch ni i wella
Chwarae dros
Gymru**

Rydym yn cynnal arolwg ar Chwarae dros Gymru fel y medrwn ei wneud hyd yn oed yn fwy defnyddiol i bobl yn gweithio yn y maes chwarae yng Nghymru. Cyhoeddir y cylchlythyr hwn a'i ddosbarthu'n ddi-dâl deirgwaith y flwyddyn i bobl yn ymwneud â darpariaeth chwarae yng Nghymru.

Byddem yn ddiolchgar iawn pe byddech yn llenwi'r holiadur amgaeedig a'i ddychwelyd i ni yn y cyfeiriad Rhadbost a nodwyd. Bydd un ymatebydd lwcus yn ennill taleb o £20. Diolch am eich help

Iaith a

Chwarae Cymru

Mae Chwarae Cymru yn gweithredu fel adfocad dros blant a'u hanghenion chwarae pa bynnag iaith a siaradant. Mae'n bwysig i ni fod gan blant fynediad i ddarpariaeth lle medrant gyfathrebu yn yr iaith sydd orau ganddynt gyda phlant eraill a gweithwyr chwarae - bydded yr iaith honno'n Gymraeg, Saesneg, neu er enghraifft, Urdu.

Fel sefydliad cenedlaethol mewn gwlad gyda threftadaeth a diwylliant cyfoethog mewn dwy iaith, mae Chwarae Cymru bob amser wedi ceisio dilyn arfer da mewn darparu cyfle cyfartal. Mae'n cyhoeddiadau a'n hysbysebion ein hunain ar gyfer swyddi bob amser yn ddwyieithog, ac rydym yn ddiflino yn codi'r mater mewn cyfarfodydd Prydeinig gyda phartneriaid arall sydd angen eu hatgoffa am faterion iaith Gymraeg. Fodd bynnag, yr ydym yn dal i deimlo y medrem fynd ymhellach, ac rydym yn gweithio gydag Estyn Llaw (sefydliad a grëwyd i helpu eraill i fabwysiadu a chynnal dynesiad dwyieithog) i edrych ar ddulliau ymarferol a fydd yn gwneud ein sefydliad yn fwy cynrychioladol ac yn fwy defnyddiol i'r sector chwarae ar draws Cymru.

Mae'n gwlad yn symud ymlaen gyda strategaethau ar gyfer darpariaeth chwarae a gofal plant a fydd yn llwyddiannus os oes gweithlu cryf ac wedi'i hyfforddi'n dda i'w cefnogi - gweithwyr chwarae sy'n gwybod am y ddamcaniaeth ac ymarfer diweddaraf mewn chwarae a gwaith chwarae ac yn medru darparu ar gyfer anghenion chwarae plant. Fel rhan o hyn mae'n hollbwysig fod gennym garfan gref o weithwyr chwarae sy'n medru'r Gymraeg ac a all arwain datblygiadau chwarae newydd, neu hyfforddi fel hyfforddwyr, i ddarparu ar gyfer y nifer cynyddol o blant a gaiff eu magu yn siarad yr iaith. Felly hyd yn oed cyn i ni gychwyn ar gynnwys y cwrs hyfforddiant gwaith chwarae newydd yr ydym yn ei ddatblygu fel rhan o brosiect Cwlwm, rydym yn gofyn i Estyn Llaw am arweiniad ar sut y medrwn ei wneud yn ddeniadol a pherthnasol i siaradwyr Cymraeg. Os hoffech ein cefnogi yn y gwaith hwn, byddem yn ddiolchgar pe cysylltech â Gill Evans neu Tillie Mobbs yn ein swyddfa genedlaethol.

Roedd Gill Evans, ein Swyddog Gwybodaeth, wedi cael llond bol ar wneud esgusodion a dechreuodd ddysgu Cymraeg fis Medi diwethaf. Er bod ei chalon yn dal yn Swydd Efrog, mae'n rhan o ymrwymiad i fyw a gweithio yng Nghymru ac i'w phlant sy'n cael eu magu yma. Mae Chwarae Cymru yn talu am y cwrs ac yn rhoi amser i ffwrdd ar gyfer astudio. Nawr y cyfan y mae hi angen yw ymarfer, hyder ac amser i ddysgu'r eirfa sy'n disgrifio ein gwaith - ond mae'r gwaith caled yn werth chweil iawn:

"Efallai na fyddwn yn medru ymdopi â sgwrs ffôn eto, ond rwy'n medru trafod negeseuon e-bost a llythyrau gyda help fy ngeiriadur ffyddlon. Y peth gorau i gyd i mi oedd eistedd drwy fy nhrydedd Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd a medru deall beth oedd yn digwydd, a pheidio bod angen ffrind i sibwrdd yn fy nghlust pan gyhoeddwyd canlyniadau fy meibion."

Os hoffech adolygu ymagwedd eich sefydliad at ddwyieithrwydd, medrwch gysylltu ag Estyn Llaw ar 0800 9711 969 neu e-bost ymhol@estynllaw.org.

Canolfannau Plant Integredig a Chwarae Mynediad Agored

Mae Canolfannau Plant Integredig newydd yn cael eu sefydlu yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru. Fel y Canolfannau Plant yn Lloegr, maent yn cynnwys darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant a datblygu/hyfforddiant cymunedol, ond yn annhebyg i'n cymdogion, mae'r Canolfannau yng Nghymru hefyd yn cynnwys Chwarae Mynediad Agored. Gobeithiwn gynnwys cyfres o adroddiadau o bob rhan o'r wlad ar sut yr aeth pob Canolfan i'r afael â'r elfen hon o'u briff.

Yn y cyfamser mae'r Cynulliad yn cyllido'r Sefydliad Materion Cymreig i olrhain datblygiad y Canolfannau Plant Integredig. Cyhoeddwyd eu hadroddiad interim ym mis Chwefror. Cysylltwch â'r IWA ar 029 20575511 i gael copi o 'Integrated Centres in Wales'.

Mae Abertawe yn datblygu maes chwarae antur fel elfen mynediad agored ei Chanolfan Plant Integredig gyntaf. Yr hyn sy'n wahanol i lawer o ganolfannau eraill yng Nghymru yw mai'r Maes Chwarae Antur fydd yn agor gyntaf.

Ysgrifenna Ben Greenaway o PlayRight:

Mae'r Ganolfan Plant yn brosiect awdurdod lleol ac mae PlayRight yn bartner yn rhedeg yr elfen chwarae mynediad agored. Fi yw'r arweinydd tîm sy'n gyfrifol am gael y maes chwarae yn weithredol ac mae'r Awdurdod Lleol wedi cyflogi Rheolydd Canolfan yn gyfrifol am elfennau eraill y Ganolfan.

Bydd y Ganolfan Plant yn ardal Penlan Abertawe yn gysylltiedig ag Ysgol Clwyd. Ar ôl ymgynghoriad helaeth gyda phlant lleol, caiff y maes chwarae antur ei ddatblygu ar safle mwy canolog ym Mhenlan - lle dymunai'r plant iddo fod.

Staffio'r maes chwarae yw'r her nesaf - ar hyn o bryd rwyf yn arweinydd tîm heb dîm! Mae PlayRight wedi cyflwyno cais i'r prosiect Working Neighbourhoods sy'n gynllun peilot gan Lywodraeth San Steffan i wella cyflogadwyedd pobl yn Ward Penderi. Gobeithiwn gyflogi pedwar hyfforddai i ennill tystysgrif CACHE lefel 2 mewn gwaith chwarae tra'n cael profiad ymarferol o weithio ar faes chwarae antur. Yn yr ail flwyddyn gobeithiwn gadw dau o'r hyfforddedigion a'u rhoi drwy'r diploma Lefel 3 a chymryd tri o bobl eraill i fynd drwy lefel 2.

Tra bu hyn i gyd yn digwydd, bûm yn cael pethau yn barod fel y bydd gan y plant ryw fath o ddarpariaeth chwarae yn y cyfamser. Rydym wedi dechrau clwb chwarae un noswaith yr wythnos yn yr eglwys Fethodistaidd leol, gan weithio mewn partneriaeth gyda thîm chwarae Cyngor Abertawe a'r eglwys. Maes o law bydd y bobl leol yn cymryd y clwb drosodd ac yn ei redeg. Fe wnaethom hefyd gynnal cynllun chwarae yn ystod hanner tymor mis Chwefror. Ar y diwrnod cyntaf daeth geiriau fel "i beth ydw i wedi cael fy hun?" i fy meddwl ond gadewais y gwaith i ganfod fod plentyn wedi ysgrifennu "FUSK" (sic) mewn creon cwyr ar fonet fy nghar oherwydd nad oedd eisiau i'r clwb gau - rwy'n dewis cymryd hynny fel cymeradwyaeth!

Bûm hefyd yn mynd o amgylch yn y gymuned yn codi cefnogaeth. Mae'r holl ysgolion lleol, cydlynedd Cymunedau'n Gyntaf, yr heddlu lleol a llawer o drigolion yn awr yn ein cefnogi. Mae nifer fawr o bobl yn barod i helpu i adeiladu'r

maes chwarae, gwirfoddoli neu ddim ond cadw llygad arno yn y nos pan fydd ar gau. Rwy'n aelod o Grŵp Partneriaeth Penlan, sy'n gweld y maes chwarae antur Penlan fel un o'r prosiectau mwyaf buddiol i ddod i'r gymuned.

Ond y bobl sy'n fwyaf cefnogol i'r prosiect yw'r plant, sydd yn edrych ymlaen yn fawr ato. Rwy'n gobeithio y medrir cynnal hynny wrth i ni fynd drwy agendâu oedolion megis y broses gynllunio. [Rwy'n credu y dylai pob darpariaeth chwarae gael eu heithrio rhag cyfraith cynllunio. Efallai y medrai hyn fod yn her nesaf Chwarae Cymru?] Rydym yn gobeithio y bydd popeth ar y gweill adeg gwyliau'r haf, cyn gweddill y Ganolfan Chwarae, ac mae gennym ychydig o fisoedd prysur o'n blaenau. Felly cadwch eich llygad ar agor!

Cysyllter â Ben ar 01792 294884 neu e-bost ben@playright.org.uk

Peidiwch byth ddiystyrru gymaint o hap sydd mewn bywyd! Sut mae rhywun sy'n symud papurau o gwmpas ar ddesg yn mynd i ddatblygu maes chwarae antur mynediad agored? Mae Chris Girvan yn dweud ei hanes personol wrth helpu sefydlu Maes Chwarae Antur Cwm Gwenfro fel rhan o Ganolfan Plant Integredig yng Nghonwy.

Hyd at y pwynt hwn yn fy mywyd, yr unig gyswllt a gefais gyda gweithwyr chwarae oedd ar draws byrddau pwyllgor. Roedd yn ymddangos i mi fod pawb yr oeddwn wedi cyfarfod â hwy yn ymrwymedig i ryw ethos o chwarae cynhwysol, ac yn eithaf digyfaddawd pan ddaeth i wybod sut yr oeddent yn barod i wneud eu gwaith. Nid yw'r math hwn o agwedd yn ddefnyddiol pan ydych yn ceisio ffeilio eich ffolderi.

Un diwrnod tywyll ym mis Rhagfyr, hysbysodd Cydlynnydd Cymunedau'n Gyntaf Parc Caia fi fy mod i helpu'r Ganolfan Chwarae Integredig leol. Roedd y ddarpariaeth gofal plant, a'r hawl blynnyddoedd cynnar, a hyd yn oed yr hyfforddiant cymunedol yn eithaf trefnus, ond mae, ac mae bob amser ond, roedd yr elfen chwarae mynediad agored yn llythrennol yn cael ei ddechrau o'r gwaelod. Yn ffodus cefais gefnogaeth Adam Hughes, Gweithiwr Ieuenctid a gyflogid gan Cymunedau'n Gyntaf Parc Caia mewn prosiect ymrwymo ieuenctid, sydd hefyd yn gweithio yn y maes chwarae antur The Venture yma yn Wrecsam.

Roedd Cyngor Wrecsam wedi cael grant Cronfa Cyfleoedd Newydd i dalu am gost adeiladu'r ffordd fynediad a'r ffens o amgylch y safle, felly roedd pethau'n ymddangos yn eithaf da. Roeddent yn frwd i weld y prosiect yn mynd rhagddo, ond roedd y gweithwyr chwarae lleol sy'n gwybod y cyfan am y pethau yma eisiau i'r plant gael eu cynnwys yn yr adeiladu. Mae gan y bobl hyn fwy o ddiddordeb yn y broses adeiladu – y manteision datblygiadol a gaiff plant o gael o'u cynnwys, a sut y gwneir i bobl ifanc deimlo'n rhan ohono - na dechrau a gorffen prosiect.

Felly beth yw'r problemau? Darganfŵm yn fuan nad oes llwybr mynediad clir i greu meysydd chwarae antur. Drwy neuaddau llychlyd cyrff swyddogol rwyf wedi canfod rhai sy'n cytuno gydag ethos cyfranogiad ond sy'n symud ymaith o'i ddefnyddio mewn modd ymarferol. Rhaid i mi gyfaddef fod y rhan fwyaf o bobl yr wyf wedi ymwneud â hwy yn rhai go lew ac yn barod i helpu, ond mae'r broses o gynnwys plant mewn adeiladu strwythur chwarae yn dychryn pobl o ddirif.

Cefais y fraint o siarad gyda chyngorwyr Chwarae Cymru fel Tony Chilton sydd wedi trafod gwerthoedd cyfranogiad a rhai



o'r goblygiadau ymarferol gyda fi. Cefais fwy o wybodaeth ar ymarferoldeb creu maes chwarae antur drwy siarad gyda Adam a gweithwyr The Venture. Hyd yn oed fel symudwr papur, cefais fy hunan yn mynd oddi ar y ffens a dweud y dylem ddyfalbarhau i geisio cyflawni hyn gydag ymgyfraniad pobl ifanc. Pam? Oherwydd y dylem! Mae'n ein rhwystro rhag gweld cyfleusterau chwarae fel rhywbeth yr ydym yn ei ollwng i fywyd pobl ifanc ac yn ein helpu i'w weld fel ffordd i rymuso a chyfoethogi bywyd pobl ifanc.

Rwyf bron yn medru gweld diwedd y prosiect hwn ac mae fy ffolder ar y bwrdd yn barod i'w ffeilio. Bu'n anodd i mi ganfod fy hunan rhwng dau ddiwylliant; rhai sydd eisiau cwblhau a chyflenwi prosiect, a'r rhai sydd eisiau i bobl ifanc gymryd rhan yn y broses a chael caniatâd i fod yn berchen y safle o'r dechrau. Bydd gennym ein ffordd mynediad a'n llwybrau a bydd gennym ein ffens o amgylch y maes chwarae antur lle bydd pobl ifanc yn cynllunio a chymryd rhan yn ei ddatblygiad.

Ond, yr un olaf un, y peth gorau yw'r gweithwyr chwarae hynny a wrthododd aros yn dawel - yn arbennig Malcolm King, Rheolydd The Venture, ac Adam. Fel canlyniad bydd pobl ifanc yn gallu hawlio eu gofod chwarae drwy adeiladu ffens sy'n eu diffinio fel eu hun hwy. Mae llawer o bobl dda o'r gymuned, yn arbennig Mrs Chris Thomas cadeirydd Cymunedau'n Gyntaf, sy'n aelod o'r gwahanol bwyllgorau, wedi dyfalbarhau i ganiatáu i bobl ifanc fod yn rhan o'r hyn sy'n digwydd yn eu cymuned. Fe wnaethant hyn er gwaethaf llawer o leisiau swyddogol yn dweud wrthynt nad yw'n bosibl! Huddyg ym mhotes y symudwyr papur!

Chris Girvan & Adam Hughes

Cysyllter â Chris ar 01978 316767

Chwarae ac Anfantais gweithio yn Romania

Yn y bedwaredd erthygl yn ein cyfres ar ddarpariaeth chwarae o safbwynt rhyngwladol, mae Fraser Brown, Darlithydd ym Mhrifysgol Leeds Metropolitan yn ysgrifennu am ei brofiad o ddarparu cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn Romania.

Ar ddiwedd 1989 dymchwelodd pobl Romania un o unbeniaid mwyaf didostur yr oes fodern. Yn syth wedyn, dechreuodd y byd y tu allan ddsygu am wir erchyllterau cyfnod Ceaucescu - a'r mwyaf brawychus o'r cyfan oedd hynt y plant. Roedd y gyfundrefn wedi gwahardd atal cenhedlu ac erthylu fel rhan o'i hymgyrch i adeiladu gweithlu mwy, gyda'r canlyniad fod babanod yn cael eu gadael yn syth ar ôl eu geni. Roedd degau o filoedd o blant yn llenwi cartrefi plant amddifad y wladwriaeth, lle'r oedd y drefn yn aml yn ddidostur a chreulon, gyda staff heb eu hyfforddi a heb fawr arian ar gyfer bwyd neu feddyginiaeth ddigonol.

Roedd un o'n myfyrwyr wedi treulio dwy flynedd yn gweithio yn un o'r lleoedd hyn cyn penderfynu dychwelyd i Brydain i gofrestru ar gwrs gradd Gwaith Chwarae. Yn ystod ei hail flwyddyn, ddewisodd gwblhau ei lleoliad dysgu drwy brofiad yn Romania a threuliodd hi a myfyriwr arall dri mis yn gweithio mewn cartref plant amddifad yn Bucharest. Pan ymwelodd fy ngwraig a finnau, roedd yn ddechrau cysylltiad sy'n parhau hyd heddiw.

I gyntaf roeddem yn gysylltiedig gydag elusen (cynllun y Rhosyn Gwyn) yn gweithio yn nhref Sighisoara lle'r oedd grŵp o blant amddifad yn byw mewn ysbyty paediatreg. Roedd y plant wedi eu cam-drin a'u hesgeuluso am flynyddoedd lawer - roeddent wedi treulio y rhan fwyaf o'u bywydau wedi'u clymu mewn cot mewn ystafell fechan - ac rwy'n credu eu bod ymysg y plant oedd wedi eu hamddifadu fwyaf rhag chwarae yn y byd.

Sefydlodd yr elusen brosiect gwaith



Ciwio am y pryd poeth wythnosol

chwarae therapiwtig a anelwyd i hybu eu hadferiad. Roedd y prosiect yn llwyddiant enfawr ac yn cynnwys hyfforddi gweithiwr chwarae o Romania yn Leeds Met. Cynhaliodd Sophie Webb, cyn fyfyrwraig gwaith chwarae a finnau brosiect ymchwil yn canolbwyntio ar gynnydd datblygiadol y plant ar ôl iddynt gymryd rhan.¹

O'r 16 o blant ar ward yr ysbyty, maes o law aeth 14 at rieni maeth neu eu mabwysiadu o fewn Romania, ac yn y pedair mlynedd diwethaf mae deugain eraill wedi manteisio o'r prosiect. Mae'r ysbyty wedi newid ei drefn gweithio ac yn awr yn anelu i ganfod lleoliad teulu i blant amddifad o fewn chwe mis - maent yn llwyddiannus fel arfer. Mae oedran cyfartalog y plant yn yr ysbyty wedi gostwng, ac mae'r prosiect yn ymwneud mwy am ofal ac ataliaeth a llai am achub ac adferiad.

Rydym yn dal i gymryd rhan ond rydym yn ar wedi symud ein ffocws i wahanol fath o anfantais. Yn Romania mae'r boblogaeth Roma fwyaf yn y byd - tua 2 miliwn mae'n debyg - ac maent yn dioddef gwahaniaethu cyffredinol yn eu herbyn. Cafodd y Roma eu disgrifio fel y bwch dihangol cenedlaethol ar gyfer problemau enfawr Romania.² Nid pobl

deithiol mohonynt, ond yn hytrach maent yn byw mewn trefi sianti mewn tai di-sut wedi'u gwneud allan o fwd a phren, heb unrhyw lawr, dim cyfleusterau, weithiau dim to. Ychydig o arian sydd ar gyfer bwyd a meddyginiaeth, ac mae disgwyliad oes yn fyr iawn. Mae'n galed iawn i oedolion gael cyflogaeth.

Y llynedd cawsom ein cyflwyno i Katie Simmonds, menyw o Brydain a oedd yn brwydro i ddarparu safonau byw sylfaenol i bedwar cant o deuluoedd Roma ym mhentref Dyffryn Oer yn Transylvania. Ysbrydolodd hyn ni i sefydlu ymddiriedolaeth elusennol - Aid for Romanian Children. Ein nod yw darparu adnoddau ac addysg hanfodol i blant y pentref. Mae'r arian a godwn yn helpu i dalu am fwyd, dillad, cyflenwadau meddygol, tai ac ysgolion, ac rydym hefyd yn rhedeg gwर्सylloedd haf. Drwy ein helusen anelwn hyrwyddo'r farn mai hynt y Roma yw'r problem, ac nid y Roma eu hunain.

Haf llynedd cynhaliodd gwirfoddolwyr o Brifysgol Leeds Metropolitan wersylloedd ar gyfer tua chant ac ugain o blant. Disgrifiant eu profiad yma:

"Mae tua 600 o blant yn y pentref. Mae'r gwर्सylloedd yn gyfle i rai ohonynt ddianc rhag caledi beunyddiol y pentref i

le sy'n lân a diogel. Mae'n caniatáu iddynt fod yn blant ac i sylweddoli fod ganddynt ddewis mewn bywyd."

"Mae dysgu mwy am y system yn Romania wedi agor fy llygaid. Fe fyddai'r plant yn chwarae gydag unrhyw beth y medrent ddod o hyd iddo."

"Y plant yw'r hapusaf i mi eu cwrdd erioed".

Rwyf wedi cynnwys y dyfyniadau hyn gan eu bod yn tynnu sylw at fater sylweddol iawn i weithwyr chwarae a darparwyr chwarae - sef pŵer chwarae yn wyneb difreintiad materol. Yn y gorffennol, mae prosiectau chwarae yn aml wedi cyfiawnhau eu bodolaeth ar y sail eu bod yn mynd i'r afael ag anghenion plant dan anfantais economaidd. Mewn gwirionedd, mae'n profiad o weithio ar brosiectau yn Romania yn rhoi peth cefnogaeth i'r farn y gall difreintiad chwarae fod yn broblem mwy difrifol nag anfantais faterol.ⁱⁱⁱ Yn ôl y rhan fwyaf a safonau, mae plant Dyffryn Oer yn gronig o dlawd, ac eto maent yn gymdeithasol ac mae ganddynt gysylltiadau teuluol cryf. Maent yn aml yn gorfforol gryf ac ystwyth - gan ddringo coed heb feddwl ddwywaith.



Sledio ar boteli pop

Cawsom ein taro'n arbennig gan ddyfeisgarwch a chreadigrwydd eu



chwarae. Er enghraifft maent yn chwarae "elastig" neu "sgipio Ffrengig" drwy glymu hen deits a'u clymu i wneud rhaffau sgipio; maent yn chwarae tidli wincs gyda thopiau potel; yn y gaeaf maent yn hollti poteli pop ac yn eu defnyddio fel slediau. Ymddengys fod cymhlethdod a chreadigrwydd chwarae'r plant hefyd yn cadarnhau Damcaniaeth Darnau Rhydd Nicholson -

"Mewn unrhyw amgylchedd mae'r raddfa o ddyfeisgarwch a chreadigrwydd, a phosibilrwydd darganfyddiad, yn uniongyrchol gymesur â'r nifer a mathau o amrywion ynddo."^{iv}

Caiff y plant hyn eu hamgylchynu gan bren a phob math o sbwriel. Maent felly yn byw mewn amgylchedd sy'n llawn o ddarnau rhydd, ac maent yn ymddangos yn sylweddol fwy creadigol yn eu chwarae na phlant Prydain heddiw, y mae eu bywyd yn aml yn cynnwys cael eu symud rhwng amgylcheddau lle mae oedolion yn dominyddu gyda theganau ac offer soffistigedig nad oes ganddynt fawr iawn i'w wneud gyda'r dychymyg. Mae agwedd creadigol ymddygiad plant

Roma yn bwnc ymchwil parhaol.

Ym mhentref Dyffryn Oer mae cymuned sy'n profi lefelau o dlodi na welwyd ym Mhrydain ers y 19eg ganrif, eto yn gyffredinol mae'r plant yn gyfeillgar, actif, creadigol a hapus. [Nid yw hyn yn bychanu effaith tymor hir tlodi ar blant Roma, yn arbennig yn nhermau iechyd ac addysg.] O gymharu, roedd y plant difreintiedig o chwarae a ddarganfuwyd yn yr ysbyty yn Sighisoara yn treulio eu bywydau yn siglo yn eu crud, gyda golwg wag yn eu llygaid.

Ymddengys mai'r wers i'w dysgu yma yw osgoi esboniadau simplistaidd o'r berthynas rhwng datblygiad plant a statws economaidd y plentyn. Mae plant sydd â theuluoedd cefnogol, digon o ffrindiau i chwarae â hwy ac amgylchedd chwarae creadigol yn fwy tebygol o wneud y gorau o'u bodolaeth. Mae plant a amddifedir o chwarae yn fwy tebygol o fynd i gragen edrych ar i mewn lle medrant guddio poen y byd allanol.

Dr Fraser Brown

ⁱ Mae crynodeb o'n gwaith yn y llyfr *Playwork: Theory and Practice*, F. Brown (gol), Buckingham, Gwasg y Brifysgol Agored (2003)

ⁱⁱ Crowe, DM (1995) *A History of the Gypsies of Eastern Europe and Russia*, Llundain, IB Tauris

ⁱⁱⁱ Hughes, B (2001) *Evolutionary Playwork and Reflective Analytic Practice*. Llundain, Routledge.

^{iv} Nicholson, S. (1971) *The Theory of Loose Parts*. Yn *Landscape Architecture Quarterly*, Cyfrol 62, Rhif 1, Hydref 1971 a *Bulletin for Environmental Education* Rhif 12 Ebrill 1972, Llundain, Cymdeithas Cynllunio Tref a Gwlad.

Mae Aid for Romanian Children yn elusen gofrestrig (rhif 1098344), Os hoffech wybod mwy am y prosiectau hyn, neu roi cyfraniad, medrir cysylltu â hwy ar 01904 635018 neu e-bost annebrown47@hotmail.com.

HYFFORDDIANT HYFFORDDIANTHYFFOR

Hyfforddiant Gwaith Chwarae yng Nghaerdydd

Mae Gwasanaethau Chwarae Plant yng Nghaerdydd bob amser wedi bod yn ymroddedig i ddarparu hyfforddiant chwarae, ond yn ystod y tair blynedd diwethaf daeth eu hymagwedd yn fwy strategol ac maent wedi ymestyn eu cylch gorchwyl i gynnwys hyfforddiant ar lefelau un i dri. Mae Richard Trew, Hyfforddydd Chwarae, yn disgrifio eu hymagwedd ac yn dweud ei farn am hyfforddiant gwaith chwarae:

Ar hyn o bryd, cynigiwn Gwrs Cyflwyno Gwaith Chwarae, Cwrs Gweithwyr Chwarae Haf, Tystysgrif CACHE mewn Gwaith Chwarae, Diploma CACHE mewn Gwaith Chwarae a'r Dystysgrif City & Guilds llwybr-cyflym mewn gwaith gyda Plant (APEL). Yn ychwanegol at y cyrsiau achrededig, cynigiwn weithdai rheolaidd ar bynciau fel rhan o'n hymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaol gweithwyr achos. Yn fwyaf diweddar, rydym wedi dechrau cynnig deunyddiau dysgu electronig rhyngweithiol i gefnogi ein cyrsiau achrededig - mae myfyrwyr a fagwyd gyda Technoleg Gwybodaeth yn gysurus iawn gyda'r adnoddau hyn.

Mae eleni yn argoeli bod yn flwyddyn gyffrous ar gyfer gwaith chwarae gyda chyhoeddi'r Egwyddorion Gwaith Chwarae newydd, y strategaeth Gorwelion Newydd ar gyfer dyfodol y sector gwaith chwarae, effaith y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ac yng Nghymru ddatblygu dull cymeradwyaeth hyfforddiant. Bydd gan yr holl gynlluniau hyn effaith sylweddol ar ddarpariaeth yr hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae sydd ar gael yng Nghymru.

Beth ddylai hyfforddiant gwaith chwarae ansawdd da ei gynnwys? Efallai y byddai beth y dylai alluogi gweithwyr chwarae i'w wybod a'i wneud yn gwestiwn gwell? Wel, rwy'n canolbwyntio ar gynnwys, cymhwysiad a chyflwyniad:

1. Dylai calon pob cwrs gwaith chwarae gynnwys archwiliad trwyadl o'r broses chwarae a'n hymateb iddi fel gweithwyr chwarae. Dyna, wedi'r cwbl, yw'r hyn sy'n gwneud ein proffesiwn yn unigryw. Ni ddylai hyfforddiant gwaith chwarae fod yn gylch diddiwedd o bolisi a gweithdrefnau ymhell o'u cyd-destun yn y broses chwarae. A yw hyn yn golygu na all fod unrhyw hyfforddiant a gweithio traws-sector effeithlon? Nag yw'n bendant. Drwy ddiffinio'n glir yr hyn sy'n neilltuo, amlygwn yr hyn a rennir ar draws proffesiynau cysylltiedig.

2. Mae hyfforddiant llwyddiannus yn ymwneud â mwy na dim ond trosglwyddo gwybodaeth o'r tiwtor i'r myfyriwr. Dylai hyfforddiant ganiatau profiadau cadarnhaol sy'n arwain at ddatblygu gwybodaeth a thechnegau ymarferol. Fodd bynnag, mae angen i ni sicrhau y gellir doddi pob un o'r galluedd hyn mewn cyd-destun. Hynny yw, mae gweithwyr chwarae yn gwybod pryd i wneud rywbeth cystal â sut i'w wneud, ac mae hynny yn ei dro yn dibynnu ar farn gadarn a chyfannol o'r broses chwarae. Mae'r sgil gynnol hon yn greiddiol i lawer o'r hyn a wnaiff y gweithiwr chwarae.

3. Un mater o gonsyrn am ddyfodol hyfforddiant gwaith chwarae yn y drafodaeth hon am beth y dylai gweithwyr chwarae wybod yw ein bod yn anghofio sut y dylent wybod. Ni fydd dylunio a chynnwys ansawdd uchel mewn cyrsiau yn fawr o werth os yw cyflwyniad hyfforddiant gwaith chwarae yn wael. Mae'n sicr y dylai sefydlu dull i sicrhau safonau uchen mesuradwy a chyson wrth gyflwyno cymwysterau gwaith achos fod yn nod allweddol ar gyfer y dyfodol.

Yn y pen draw, rhaid i addysgu a dysgu ansawdd uchel fod yn sylfaen i ddatblygu gwaith chwarae fel proffesiwn ac mae hyn yn ei dro yn hanfodol os ydym i sicrhau dyfodol gwaith chwarae a chanfyddiadau newydd ar bwysigrwydd ein rôl yn hwyluso chwarae plant.

Cysyllter â Richard ar 029 20873944

Proffesiwn Gwaith Chwarae

Mae'r sector Gwaith Chwarae wedi ymofyn amddiffyn ei gyfraniad unigryw i anghenion plant a phobl ifanc drwy lunio amrediad trawiadol o gymwysterau sy'n cadw integriti'r sector tra'n cydnabod gofynion cyfreithiol megis Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002.

Mae teitl 'Gweithiwr Chwarae Proffesiynol' yn parhau'n brin, a dangosir hynny gan y ffaith y defnyddir y term 'gweithiwr chwarae' heb gyfyngiad. Gall unrhyw un ddefnyddio'r teitl hwnnw heb fod gofyniad i'w gysylltu gyda chymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol neu gyfraddau cyflog cysylltiedig. Pwrpas yr erthygl hon yw archwilio cyfleoedd a fedrai ac sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru i ganiatau'r sector gwaith chwarae i geisio cydraddoldeb gyda phroffesiynau cysylltiedig (megis dysgu neu wasanaethau cymdeithasol) gan wybod fod y corff o arbenigedd, profiad ac integriti a rennir ar y cyd yn cyfateb ac yn ategu'r hyn a arddangosir yn y proffesiynau hyn.

Yn yr un modd â meysydd eraill o'r sector 'addysg anffurfiol', medrir defnyddio'r teitl gweithiwr chwarae ar gyfer amrediad eang o unigolion. Ar y continwmm mae gwirfoddolwyr brwdfrydig ond heb gymwysterau, y gweithwyr tymhorol, ymarferwyr wyneb-i-wyneb llawn amser ac, yn olaf, reolwyr strategol mewn awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol.

Mae'r sector Gwaith Chwarae yn cael ei yrru ar hyn o bryd i fabwysyadau isafswm safonau cymhwyster ar NVQ Lefel 2 a Lefel 3, nid fel rhan o raglen gynlluniedig o ddatblygu gweithlu ond mewn ymateb i'r Safonau Cenedlaethol dros Reoliad Gofal Dydd Plant Dan Wyth a Gwarchod Plant a ymgorfforwyd yn Neddf Plant 1985. Mae'r ffocws hwn, er yn gymeradwy yn nhermau amddiffyn plant, yn anghofio fod y sector yn gweithredu o fewn agenda oedran llawer ehangach a bod ganddo ofyniad cyfatebol ac yr un mor bwysig i ddatblygu'r sgiliau a sylfaen gwerthoedd unigryw sy'n gynhenid i faes gwaith chwarae.

Datblygiad proffesiynol gweithwyr unigol a goleddir o fewn y continwmm gwaith chwarae ddylai fod yn brif ysgogydd targedau cymhwyster gweithlu yn llwyr er mwyn codi a chynnal safonau gwasanaeth yn y sector. Er mwyn cyflawni hyn, mae amcanion allweddol y mae'n rhaid i ni eu cyflawni:

- Cymwysterau yn gysylltiedig â'r rolau wedi eu dynodi o fewn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae
- Dylai teitlau swydd a disgrifiadau swydd yn gysylltiedig gyda'r rolau hynny fod yn gysylltiedig â dyletswyddau'r swydd yn hytrach na gyda chymhwyster.
- Cymwysterau'n cyfateb â'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol i adlewyrchu'r lefel wahanol o arbenigedd sydd ei hangen ac felly adlewyrchu cymhlethdod y rolau a wneir ar wahanol lefelau'r proffesiwn.

Ydych chi'n dal gyda fi? Yn y diagram islaw, ymgeisiais ddangos fy argymhelliad am yr hyn y dylai'r sector Gwaith Chwarae geisio ei sefydlu o fewn y degawd nesaf i symud Gwaith Chwarae yn gadarn i'r 21ain Ganrif a thu hwnt. Mae'n cynrychioli nifer o lefelau cymhwyster y medrai pob swydd gwaith chwarae gael eu graddio â hwy. Dylid datblygu'r 'Llwybr Cydlynol' bondigrybyll fel partneriaeth rhwng y cyflogwyr a darparwyr gwasanaeth ac asiantaethau hyfforddi. I ddechrau, dylai pob swydd, yn cynnwys swyddi gwirfoddolwyr, gael eu graddio drwy eu mapio o gymharu â dangosyddion lefel Fframwaith Cymhwyster Cenedlaethol a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol lle'n briodol. Yn dilyn hyn, dylid cyfodod dadansoddiad o lefel cymhwyster y gweithlu

presennol o gymharu â chanfyddiadau'r ymarferiad graddio dechreuol i sefydlu faint o 'uwch sgilio' sydd ei angen ar bob lefel o fewn y proffesiwn. Yn olaf, dylid cynhyrchu cynllun datblygu gweithlu i sefydlu camau cronus ar y ffordd i gyflawni'r nod o broffesiwn gyda phob aelod yn 'gymwysedig'.

Llwybr cydlynol i Gymwysterau Gwaith Chwarae

Lefel y Cymhwyster a Argymhellir	Lefel NQF	Teitl Swydd Priodol	Dangosydd Lefel NQF
BA Anrh mewn Gwaith Chwarae	Lefel 6	Gweithiwr Chwarae Graddedig	Mae cymwysterau Lefel 6 yn cydnabod gwybodaeth lefel uchel arbenigol o faes gwaith neu astudiaeth i alluogi defnyddio syniadau ac ymchwil yr unigolyn ei hun mewn ymateb i broblemau a sefyllfaoedd cymhleth. Mae dysgu ar y lefel hon yn golygu cyflawni lefel uchel o wybodaeth broffesiynol ac mae'n addas ar gyfer pobl yn gweithio fel gweithwyr proffesiynol seiliedig ar wybodaeth neu mewn swyddi rheoli proffesiynol. Mae cymwysterau Lefel 6 ar lefel cyfwerth i radd Baglor gydag anrhydeddau, tystysgrifau graddedigion a diplomâu graddedigion.
Diploma Addysg Uwch mewn Gwaith Chwarae	Lefel 5	Gweithiwr Chwarae Cymwysedig	Mae cymwysterau Lefel 5 yn cydnabod y gallu i gynyddu dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth maes o waith neu astudiaeth i alluogi ffurfio datrysiadau ac ymatebion i broblemau a sefyllfaoedd cymhleth. Mae dysgu ar y lefel hon yn golygu arddangos lefel uchel o wybodaeth, lefel uchel o arbenigedd gwaith mewn rolau swydd a chymhwyster wrth reoli a hyfforddi eraill. Mae cymhwyster ar y lefel hon yn addas ar gyfer pobl yn gweithio fel technegwyr gradd uwch, gweithwyr proffesiynol neu reolwyr. Mae cymwysterau Lefel 5 ar lefel cyfwerth i gymwysterau Addysg Uwch canolig megis Diplomâu Addysg Uwch, graddau Sylfaen a graddau eraill nad ydynt fel arfer yn rhoi mynediad i raglenni ôl-radd.
Tystysgrif Addysg Uwch mewn Gwaith Chwarae	Lefel 4	Hyfforddai Proffesiynol	Mae cymwysterau Lefel 4 yn cydnabod dysgu arbenigol ac yn cynnwys dadansoddiad manwl o lefel uchel o wybodaeth mewn maes gwaith neu astudiaeth. Mae dysgu ar y lefel hon yn addas ar gyfer pobl yn gweithio mewn swyddi technegol a phroffesiynol, a/neu reoli a datblygu eraill. Mae cymwysterau Lefel 4 ar lefel cyfwerth i Dystysgrifau Addysg Uwch.
Tystysgrif Addysg Uwch mewn Gwaith Chwarae	Lefel 3	Gweithiwr Cefnogi Chwarae Ail Lefel	Mae cymwysterau Lefel 3 yn cydnabod y gallu i ennill, a lle'n berthnasol gymhwyso amrediad o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth. Mae dysgu ar y lefel hwn yn cynnwys cael gwybodaeth a sgiliau manwl. Mae'n addas ar gyfer pobl sy'n dymuno mynd i brifysgol, pobl yn gweithio'n annibynnol, neu mewn rhai ardaloedd yn arolygu a hyfforddi eraill yn eu maes gwaith.
NVQ 2 mewn Gwaith Chwarae Lefel II neu gyfwerth	Lefel 2	Gweithiwr Cefnogi Chwarae Lefel Gyntaf	Mae cymwysterau Lefel 2 yn cydnabod y gallu i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth dda o faes pwnc gwaith neu astudiaeth ac i gynnal tasgau amrywiol gyda pheth arweiniad neu arolygaeth. Mae dysgu ar y lefel hon yn golygu adeiladu gwybodaeth a/neu sgiliau yng nghyswllt maes gwaith neu faes pwnc ac mae'n addas ar gyfer llawer o rolau swyddi.
Cyflwyniad ac Anwytho	Dim yn berth nasol	Recriwtiaid Newydd	Mae cymwysterau Lefel 2 yn cydnabod gwybodaeth a sgiliau sylfaenol a'r gallu i gymhwyso dysgu gyda chyfarwyddyd neu arolygaeth. Mae dysgu ar y lefel hon ynglŷn â gweithgareddau sy'n bennaf yn cyfeirio at sefyllfaoedd bob dydd a gall fod yn gysylltiedig gyda chymhwysedd swydd.

Gadewch i ni symud blwyddyn neu ddwy i'r dyfodol. Ar ôl adeiladu llwybr cydlynol i gymhwyster, graddio pob swydd o fewn gwaith chwarae i lefelau cymhwyster priodol, a pharatoi cynllun datblygu gweithlu i ddarparu gwybodaeth ymchwil marchnad ar gyfer darparwyr hyfforddiant, medrid eich esgusodi pe credech fod y Proffesiwn Gwaith Chwarae yn awr wedi cwblhau ei dasg ac y medrai edrych yn fodlon i'r tân gwersyll cynllun chwarae hollbresennol, ond na!

Nid yw rheoli ansawdd hyfforddiant yn fater y dylid ei adael i reolwyr ansawdd sefydliad hyfforddiant neu gynrychiolwyr Arolygaeth Ei Mawrhydi. Mae cymeradwyaeth broffesiynol yn swyddogaeth allweddol mewn sicrhau fod damcaniaeth gwaith chwarae yn cael ei gaffael, cymhwyso ac adfyfrio arno. Mae Skills Active yn hyrwyddo'r broses hon ar draws y Deyrnas Gyfunol ac yng Nghymru, mae Chwarae Cymru yn arwain gyda hyn. Gwnaed cynnydd sylweddol i rymuso'r maes wrth gynnal yr hyn sy'n swyddogaeth gymhleth sydd angen grŵp Safonau Addysg a Hyfforddiant i gynrychioli'r proffesiwn, cynghori, arolygu a monitro'r asiantaethau hyfforddi i sicrhau y cedwir safonau.

Yn olaf, yn fyr eu hanadl o'r holl ymdrech, bydd angen i'r proffesiwn wedyn sicrhau fod ei rannau cyfansoddol nid yn unig â chymwysterau dechreuol ond yn parhau'n ffit i ymarfer ac arddangos hyn drwy fframwaith datblygu proffesiynol cadarn. Unrhyw un awydd hyfforddi?

Alun Griffiths yw Ysgrifennydd Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru.

Medrir cysylltu ag Alun drwy Asiantaeth Ieuenctid Cymru.

DIGWYDDIADAU

Bydd Chwarae Cymru yn anfon ein e-Fwletin Hyfforddiant a Digwyddiadau atoch os ffoniwch ni neu anfon e-bost atom i ofyn am gael eich ychwanegu at y gronfa ddata. Rydym hefyd yn cynnal gwasanaeth hysbysebu swyddi ar gyfer darparwyr chwarae a rhai'n edrych am swyddi chwarae yng Nghymru. Cysyllter â Phil ar 029 20486050 neu phil@playwales.org.uk.

Seminar Asesu Risg Playlink

12 Ebrill 2005, Canol Llundain – i gael manylion pellach gweler www.playlink.org.uk neu ffonio 07946 527264

Chwarae yng Nghefn Gwlad

gwneud iddo ddigwydd i blant a phobl ifanc. Cynhadledd Flynnyddol Chwarae Ranbarthol De Ddwyrain Lloegr, 23 Ebrill 2005, Guildford. E-bost: hanna@playwork.org.uk.

Iachau drwy Chwrae

cyflwyniad i chwarae fel therapi. Community Insight, 26 Ebrill 2005, Llundain. Ffoner 01793 512612 i gael manylion pellach.

Chwarae Ysbryd Antur

Chwarae Cymru, 11 a 12 Mai 2005, Caerdydd. Lle i ail-wefru, gloywi ac adolygu eich ymarfer gwaith chwarae - cyflwyniadau, gweithdai, amser i rwydweithio a chael eich ysbrydoli. Ffoner Phil MacLeod i gael manylion archebu ar 029 20486050.

Chwarae: Dysgu am Oes

Cymdeithas Chwarae Ryngwladol, 18-22 Gorffennaf 2005, Berlin. I gael gwybodaeth bellach gweler www.ipa2005.de

Both Dysgu Peilot

Bu Skillsactive Cymru, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer gwaith chwarae, yn edrych ar fater sgiliau yn wynebu cyflogwyr yng Nghymru er mwyn gwella mynediad i hyfforddiant ac addysg.

Maent ar hyn o bryd yn cynnal cynllun peilot o Fothau Dysgu – a fydd yn gweithio ar ddwy lefel:

- Rhwydweithiau cyflogwyr – tynnu ynghyd a chydlynu anghenion hyfforddiant a gofynion cyfathrebu.
- Darparydd hyfforddiant. Bydd 'safleoedd both' yn cydlynu cysylltiadau i rwydwaith cyflwyno ranbarthol ehangach. Bydd y cysylltiadau hynny yn cynnwys swyddfa ranbarthol ELWa, darparwyr hyfforddiant lleol eraill, grwpiau cyflogwyr presennol, CCET (Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant), sefydliadau cenedlaethol a sefydliadau diddordeb proffesiynol.

Y bwriad yw cael tri Both Dysgu ledled Cymru, yn y Gogledd, De a'r Canolbarth, ac os ydynt yn llwyddiannus bydd Skillsactive yn eu hymestyn ledled y DG.

Mae Coleg Glan Hafren yng Nghaerdydd yn rhedeg cynllun peilot chwe mis yn dilyn proses dendro agored. Dywedodd Andy Evans, Rheolydd Datblygu Busnes, sy'n rhedeg y peilot: "Rydym yn falch iawn i fod wedi ennill y prosiect hwn ac edrychwn ymlaen at yr her o'n blaen. Mae'r ymateb cynnar gan gyflogwyr yn gadarnhaol iawn a gobeithiwn drefnu partneriaethau gydag amrywiaeth o ddarparwyr hyfforddiant er mwyn ateb anghenion lleol."

Bu Andy yn cwrrd gyda budd-ddeiliaid yn y sector gwaith chwarae yn ddiweddar. Os teimlwch y medwrch un ai gyrchu neu gynnig hyfforddiant ac addysg mewn gwaith chwarae yn Ne Cymru, cysylltwch ag Andy ar 029 2040 6520 neu e-bost evans_a@glan-hafren.ac.uk.

Adolygiadau Llyfr

The Buskers Guide to Playwork

Shelly Newstead

Common Threads Publications

£8.50

Mae Doug Cole, Swyddog Datblygu Chwarae gyda Chyngor Sir Caerdydd, yn adolygu cyhoeddiad gwaith chwarae newydd ac ychwanegiad diweddar i Lyfrgell Chwarae Cymru:

Nawr mae'n well i mi ddechrau drwy ddweud i'r llawlyfr 70 tudalen maint poced yma roi digon o gyfle i mi gymryd rhan mewn gweithgaredd gwrthdymiol clasurol un prynhawn. Roedd un ai ceisio cael trefn ar y gyllideb, neu fynd ati i gyflawni fy addewid i ysgrifennu adolygiad, dyfalwch pwy un a drechodd!

Nod The Buskers Guide to Playwork yw diffinio'r hyn yw gwaith chwarae – camp go fawr pan ystyrir y nifer o goed a gafodd eu haberthu eisoes hyd yma i ddilyn y nod yma.

Felly a wnaeth weithio? Mae'n rhaid i mi ddweud ei fod wedi gweithio ar y cyfan. Mae hyn yn gyflwyniad onest a realistig oedd yn taro tant gyda mi ac rwy'n siŵr y bydd yn gwneud hynny gyda llawer o weithwyr chwarae.

Mae'r llyfr yn anelu i drafod llawer: gwaith chwarae a chwarae; beth yw gwaith chwarae; lleoedd gwaith chwarae; oedolion a chwarae, ac mae'n gofyn y cwestiwn os ydym yn ei wneud yn iawn? Medrai pob un o'r pynciau hyn fynd â 70 tudalen eu hunain, ond llawlyfr cyfeirio cyflym yw hyn, ac mae'n llwyddo gan bennaf.

Wrth i mi ddarllen dechreuais ofyn i mi fy hunan pwy yw'r gynulleidfa ar gyfer y llyfr (ar wahân i Swyddogion Datblygu Chwarae a ddylai fod yn cael trefn ar eu cyllideb!).

Mae Shelly yn dweud yn y cyflwyniad yr hoffai i The Buskers Guide gael ei ddarllen gan unigolion cyn iddynt fynd ar gysiau hyfforddi, ac rwy'n credu fod rhywbeth i'w ddweud o blaid hyn. Wrth i'r llyfr fynd yn ei flaen, fodd bynnag, ymddengys ei fod yn colli ychydig o gyfeiriad ac yn dod yn llai am baratoi pobl ar gyfer hyfforddiant gwaith chwarae, ac yn fwy am ddadansoddiad parhaol o waith chwarae, neu ddarbwylllo'r dibrofiad beth yw gwaith chwarae. Mae rhagoriaeth i'r ddau ac efallai bod y cyhoeddiad hwn yn ceisio gwneud gormod yn hytrach na chanolbwyntio ar un agwedd.

Rwy'n siŵr y bydd y llawlyfr byr hwn yn ddefnyddiol, a llongyfarchiadau i unrhyw un sy'n ceisio diffinio gwaith chwarae mewn 70 o dudalennau bach.

Global Glue

Common Threads Publications

£14.10

Mae hwn yn adnodd cyffrous iawn. Yn ogystal â bod yn greadigol, gwneud i chi feddwl ac yn hwyl - mae hefyd yn addysgol. Mae gan Global Glue gyfarwyddiadau a dalennau gweithgaredd rhydd eu dilyn ac os na fedrech ddychmygu'n iawn sut olwg fyddai ar Innuksuk mae ffotograffau a lluniau sy'n dod â'r cyfan at ei gilydd.

Meddyliais y byddwn yn ceisio'r gweithgareddau ar raddfa lai yn hytrach na graddfa fawr i weld os oeddent yn rhwydd eu haddasu. Rwy'n gweithio ar Fws Chwarae a chredais mai dyma fyddai'r lle delfrydol i roi cynnig arno. Gweithiodd yn wirioneddol dda, gyda'r plant yn creu coedwig law ac ystafell fideo yn y gegin fyny'r grisiau, a rhai o'r gweithgareddau llai lawr grisiau - megis ysgrifennu reis - oherwydd nad oedd llawer o le. Cafodd y plant amser gwych a roeddent yn llawn cwestiynau, felly mae angen i chi wneud eich gwaith cartref ar y pwnc yr ydych yn eu cyflwyno iddo.

Mae Global Glue mor hyblyg fel y medrir ei ddefnyddio fel prosiect cyfan neu mewn rhannau llai. Medrir defnyddio'r gweithgareddau gyda phob oedran a gallu. Mae hyn yn adnodd a all ac a fydd yn cael ei defnyddio dro ar ôl tro yn ein prosiect. Os nad yw gennych eisoes, byddwn yn argymhell eich bod yn ei gael. Mae'n wych.

Deb, Valleys Kids.

Cysyllter â Common Threads ar 07000 785 215 neu e-bost playwords@commonthreads.co.uk.